

My Vote
My Voice

Ynglŷn â chofrestru i bleidleisio





Mae gan bobl ag anabledd dysgu ac/neu awtistiaeth yr un hawl ag unrhyw un arall i bleidleisio mewn etholiad




Gallwch bleidleisio drwy'r post, mewn person, neu **trwy ddirprwy**. Mae trwy ddirprwy'n golygu y gall rhywun arall bleidleisio ar eich rhan.




Mae **cofrestru i bleidleisio** yn golygu y gallwch bleidleisio yn unrhyw etholiadau sy'n lleol i chi.



Mae'r bobl sydd **wedi cofrestru i bleidleisio** yn mynd ar restr o'r enw **Cofrestr Etholwyr**, weithiau gelwir hon yn Gofrestr Etholiadol.



Mae pawb sydd ar y rhestr hon yn cael cerdyn drwy'r post cyn unrhyw etholiad y gallan nhw bleidleisio ynddo.



Mae'r cerdyn hwn yn dweud wrthy ch pryd mae etholiad yn mynd i ddigwydd.



Mae'r cerdyn yn dweud hefyd beth yw'r dyddiad olaf ar gyfer pleidleisio drwy'r post



Mae'r cerdyn hwn yn dangos y cyfeiriad lle dylech fynd i bleidleisio'n bersonol.



Gallwch gofrestru i bleidleisio os ydych:



- Yn 18 mlwydd oed neu hŷn



- Yn ddinesydd Prydeinig, Gwyddelig neu o'r Gymanwlad



- Yn byw yn y DU



Mae'n rhaid i chi gofrestru eto bob tro rydych yn symud cartref neu'n newid eich enw cyfreithiol.



Cyn pob etholiad mae dyddiad cau ar gyfer **cofrestru i bleidleisio**. Y dyddiad cau yw'r dyddiad olaf pan allwch wneud rhywbeth. Fel arfer mae hwn rhyw 2 wythnos cyn i'r etholiad ddigwydd.



Mae'n rhaid i chi fod wedi **cofrestru i bleidleisio** cyn y dyddiad cau hwn.




Cofiwch fod gan bobl ag anabledd dysgu ac/neu awtistiaeth yr un hawl i bleidleisio ag unrhyw un arall.

Fy Llais Fy Mhleidlais i yw benderfynol o annog pobl gyda anableddau dysgu a phobl awtistig i bleidleisio.

Ewch i www.myvotemyvoice.org.uk i gael mwy o wybodaeth..

Cysylltwch â ni::

info@myvotemyvoice.org.uk
Twitter: #MyVoteMyVoice



Gyda diolch i Photosymbols a'r Comisiwn Etholiadol

